

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Arolygiad Dirybudd o Urddas a Gofal Hanfodol

Dyddiad yr arolygiad 18 Rhagfyr 2012 a 7
Chwefror 2013

Cynnwys

Pennod	Rhif y Dudalen
1. Cyflwyniad	1
2. Crynodeb Gweithredol	3
3. Canfyddiadau	5
Ward B7 (Ward Anadlu)	5
Ward A6 (Ward Trawma a Llawdriniaethau Asgwrn Cefn)	13
4. Argymhellion	19
6. Y Camau Nesaf	23
Atodiad A – Swyddogaethau a Chyfrifoldebau Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru	24
Atodiad B – Y Cefndir a'r Fethodoleg ar gyfer yr Arolygiadau Urddas a Gofal Hanfodol	26
Atodiad C – Themâu Urddas a Gofal Hanfodol, Hawliau Dynol a Safonau ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd yng Nghymru	28

1. Cyflwyniad

1.1 Ar 18 Rhagfyr 2012 a 7 Chwefror 2013, cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGCC) arolygiad dirybudd o Urddas a Gofal Hanfodol yn Ysbyty Athrofaol Cymru yng Nghaerdydd, sy'n rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Urddas a Gofal Hanfodol Hanfodol

1.2 Mae erthygl tri o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn dweud na ddylai neb gael ei drin mewn ffordd annynol neu ddiraddiol¹. Mae Deddf Hawliau Dynol 1998 yn gosod rhwymedigaeth ar awdurdodau cyhoeddus yn y DU – gan gynnwys holl wasanaethau'r GIG – i drin pobl yn deg a chyfartal, ag urddas a pharch.

1.3 Mae urddas hefyd yn un o bum egwyddor y Cenhedloedd Unedig ar gyfer pobl hŷn, ac mae'n egwyddor allweddol sy'n sail i Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn Llywodraeth Cymru a'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru. Yn 2007, lansiodd Llywodraeth Cymru ei rhaglen 'Urddas mewn Gofal' ar gyfer Cymru, sef menter sydd â'r nod o sicrhau na oddefir unrhyw achos o gam-drin pobl hŷn ac o ddiffyg parch tuag atynt yn y system iechyd a gofal cymdeithasol.

1.4 Yng nghyd-destun deddfwriaeth hawliau dynol y DU a rhyngwladol, a pholisi Llywodraeth Cymru, cychwynnodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) raglen o 'Arolygiadau Urddas a Gofal Hanfodol' dirybudd ym mis Rhagfyr 2011 i adolygu'r gofal a roddir i bobl mewn ysbytai ledled Cymru, gan roi sylw arbennig i bobl hŷn. Mae'r rhaglen hon yn dilyn Archwiliadau ar Hap AGIC o Urddas a Pharch a gynhaliwyd yn ystod 2009 a 2010.

¹ Mae 'triniaeth annynol' yn golygu triniaeth sy'n achosi niwed meddyliol neu gorfforol difrifol, ac mae 'triniaeth ddiraddiol' yn golygu triniaeth sy'n hynod o fychanol a diurddas.

Methodoleg yr Arolygiad

1.5 Mae'r 'Arolygiadau Urddas a Gofal Hanfodol' yn adolygu'r ffordd y cynhelir urddas claf mewn ward/uned ysbyty, a'r gofal nyrsio sylfaenol a dderbynnir gan y claf. Cesglir gwybodaeth trwy siarad â chleifion, perthnasau a staff, trwy adolygu cofnodion meddygol cleifion, a thrwy arsylwi.

1.6 Mae'r arolygiadau'n rhoi 'cipolwg' o'r gofal a dderbynnir gan gleifion ar wardiau/unedau ysbyty, ac fe allent amlygu materion ehangach yn ymwneud ag ansawdd a diogelwch gofal hanfodol ac urddas. Mae mwy o wybodaeth am sut y cynhelir yr arolygiadau ar gael yn Atodiad B yr adroddiad hwn.

Ysbyty Athrofaol Cymru

1.7 Ysbyty Athrofaol Cymru yw'r ysbyty mwyaf yng Nghymru ac mae'n darparu uned frys 24 awr ac amrywiaeth eang o wasanaethau arbenigol.

1.8 Ymwelwyd â dwy ward yn rhan o'n hymweliadau arolygu, Ward B7 (Ward Anadlu) a Ward A6 (Trawma a Llawdriniaethau Asgwrn Cefn).

2. Crynodeb Gweithredol

2.1 Yn sgil yr Arolygiad Urddas a Gofal Hanfodol hwn yn Ysbyty Athrofaol Cymru, mae AGIC wedi nodi nifer o feysydd i'w gwella y mae angen i'r Bwrdd Iechyd fynd i'r afael â hwy.

2.2 Roedd y prif faterion a amlygwyd yn ein harolygiad yn ymwneud â chwblhau cofnodion cleifion, sy'n rhan hanfodol o'r broses o gyfathrebu gofal. Nodwyd nifer o bryderon, gan gynnwys:

- Nid oedd asesiadau cleifion wedi eu cwblhau'n llawn bob amser ac nid oedd bob amser yn eglur sut yr oedd asesiadau'n cael eu hadlewyrchu yng nghynlluniau gofal y cleifion.
- Roedd y cynlluniau gofal a oedd ar waith yn rhai generig ac felly nid oeddent bob amser yn nodi manylion cynnydd y claf penodol na lefel y gefnogaeth yr oedd ei hangen.
- Nid oedd cofnodion cleifion, megis siartiau bwyd a hylif, wedi eu cwblhau'n llawn gan aelodau staff bob amser.
- Roedd ffurflenni '*Na Cheisier Dadebru*' (DNAR) yn rhan o gofnodion rhai cleifion ar B7, ond nodwyd yng nghyswllt un claf nad oedd aelodau staff yn ymwybodol bod y ffurflen yn y cofnodion ac nid oedd tystiolaeth bod unrhyw drafod wedi bod â theulu'r claf.

2.3 Roedd materion eraill a amlygwyd yn cynnwys:

- Dim ond hanner y cleifion ar B7 oedd yn gallu cael gafael ar seinydd i alw am gymorth nyrsio, a chanfuwyd bod seinydd brys yn un o'r toiledau ar A6 wedi torri.
- Ar A6, nodwyd annibendod drwy'r ward gyfan, yn enwedig yn y prif goridor oherwydd prinder manau storio. Hefyd, roedd prinder toiledau ar gael ar A6 ac roedd toiledau neilltuedig yn cael eu defnyddio gan ddynion a menywod.

- Ar B7, ychydig iawn o amser oedd yn cael ei dreulio'n paratoi cleifion cyn gweini prydau bwyd ac roedd yn rhaid i gleifion aros am gymorth i fwyta gan mai ychydig o staff oedd ar gael i helpu.
- Roedd hefyd yn peri pryder i ni nodi bod staff a oedd yn rhoi meddyginiaeth i gleifion ar B7 yn gadael y feddyginiaeth ar loceri/byrddau cleifion ac nad oeddent yn eu goruchwyllo'n cymryd y feddyginiaeth.

2.4 Er gwaetha'r problemau uchod, gwelsom yn ystod ein hamser ar y wardiau yr ymwelwyd â hwy sawl enghraifft o staff yn rhyngweithio â chleifion mewn ffordd ofalgar a sensitif. Hefyd, roedd y rhan fwyaf o'r cleifion y bu i ni siarad â hwy'n canmol agwedd ac ymddygiad y staff tuag atynt.

2.5 Hoffem ddiolch i Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, ac yn enwedig i'r staff ar y wardiau yr ymwelwyd â hwy, a oedd yn hynod barod eu cymwynas drwy gydol ein harolygiad.

3. Canfyddiadau

3.1 Rydym wedi strwythuro canfyddiadau'r arolygiad ar sail meysydd allweddol Urddas a Gofal Hanfodol ar gyfer pob uned yr ymwelwyd â hi. Nodir yr argymhellion sy'n deillio o'r canfyddiadau hyn yn adran 4 yr adroddiad hwn.

Ward B7 (Ward Anadlu)

Amgylchedd y Ward

3.2 Yn gyffredinol, roedd y ward yn lân, yn daclus ac yn lliwgar. Roedd y rhan fwyaf o'r cleifion y bu i ni siarad â hwy'n canmol glendid y ward.

3.3 Prin iawn oedd yr annibendod a welwyd gan fod y mannau storio a oedd ar gael yn cael eu defnyddio'n briodol. Defnyddid y loceri storio ger gwelyau'r cleifion i storio eiddo personol y cleifion.

3.4 Dynodir toiledau ac ystafelloedd cawod yn rhai i ddynion neu fenywod. Roedd y cyfleusterau hyn yn amlwg yn lân ac roedd y mecanweithiau cloi priodol ar holl ddrysau'r cyfleusterau.

3.5 Nid oedd y staff yn defnyddio arwyddion i hysbysu eraill fod gofal a thriniaeth bersonol yn cael eu darparu y tu ôl i lenni. Gwelsom adegau pan nad oedd y staff yn cau'r llenni'n iawn o amgylch gwelyau cleifion cyn darparu gofal a thriniaeth sensitif iddynt, ac roedd hyn yn golygu bod bylchau y gallai pobl eraill weld y claf drwyddynt. Gwelwyd meddygon hefyd yn mynd y tu ôl i lenni a oedd wedi eu cau heb wirio ei bod yn iawn i wneud hynny.

3.6 Nid oedd ystafell ddydd ar gael i'r cleifion ar y ward. Ar adeg ein hymweliad roedd yr ystafell yn cael ei defnyddio fel swyddfa i'r staff.

Agwedd ac Ymddygiad y Staff, a'u Gallu i Ddarparu Gofal ag Urddas

3.7 Gwelsom aelodau staff yn gofalu am gleifion mewn ffordd garedig a chyda chydymdeimlad ac roedd y cleifion y bu i ni siarad â hwy yn ganmoliaethus iawn o agwedd ac ymddygiad y staff.

3.8 Ac eithrio'r materion a nodwyd yn ymwneud â chau llenni, roedd y staff ar y ward yn dangos ymwybyddiaeth o'r angen am ddisgresiwn wrth gyfleu gwybodaeth sensitif. Gwelsom rownd ward a gynhaliwyd â disgresiwn gan yr aelodau staff dan sylw.

3.9 Roedd yn ymddangos bod y lefelau staffio ar ddiwrnod ein hymweliad yn briodol gan fod 27 claf yn derbyn gofal ar y ward 32 gwely. Fodd bynnag, roeddem yn pryderu a fyddai lefelau staffio yn ddigonol pan roedd y ward yn llawn a phan fyddai lefel uwch o ddifrifoldeb ymhlith y cleifion. Dywedodd aelodau o'r staff wrthym eu bod yn teimlo y byddai cynorthwydd gofal iechyd ychwanegol yn ddefnyddiol ar y ward.

3.10 Nodwyd yn ystod ein harsylwadau nad oedd yr holl aelodau staff ar ddyletswydd yn gwisgo bathodyn adnabod.

Rheoli Cleifion sy'n Ddryslyd Neu Sydd â Dementia

3.11 Roedd y Cynllun Pili Pala² wedi ei gyflwyno ar y ward yn ddiweddar a gwelsom rai enghreifftiau o ofal rhagorol yn cael ei ddarparu gan staff. Er enghraifft, roedd y staff yn ysgrifennu cynllun gofal un claf â dementia iddo bob dydd fel y gallai ddeall y gofal a ddarperid iddo'n well.

3.12 Fodd bynnag, nid oedd arwyddion lluniau mawr ar ystafelloedd ymolchi/ystafelloedd cawod y cleifion i gynorthwyo'r cleifion i ddod o hyd iddynt, yn enwedig cleifion â dryswch neu ddementia.

² Mae'r Cynllun Pili Pala yn galluogi pobl y mae dementia wedi effeithio'n barhaol ar eu cof i wneud hyn yn eglur i aelodau staff yr ysbyty ac mae'n darparu strategaeth ymarferol, syml i staff allu diwallu eu hanghenion.

3.13 Dywedodd rhai o'r staff y bu i ni siarad â hwy nad oeddent wedi derbyn unrhyw hyfforddiant gofal dementia ac y byddent yn croesawu'r cyfle i fanteisio ar yr hyfforddiant hwn.

Cynllunio a Darparu Gofal

3.14 Roedd asesiadau cleifion ar gael ac yn cael eu diweddarau gan y staff. Fodd bynnag, gwelsom un claf â sawl clwyf yr oedd angen ei rwymo ac nid oedd ei gofnodion yn cynnwys siart asesu clwyfau.

3.15 Nodwyd nad oedd asesiadau cleifion bob amser yn cael eu diweddarau'n wythnosol ac nid oedd yn amlwg sut yr oedd asesiadau'n gysylltiedig â chynlluniau gofal cleifion. Fodd bynnag, roedd tystiolaeth dda yng nghofnodion y cleifion o wneud atgyfeiriadau at arbenigwyr perthnasol, fel dietegwyr, podiatregwyr a nyrsys diabetig.

3.16 Roedd cynlluniau gofal ar waith ar gyfer yr holl gleifion ar y ward. Fodd bynnag, roedd rhai o'r cynlluniau gofal yn rhai generig ac felly nid oeddent yn nodi anghenion penodol y cleifion unigol. Hefyd, prin oedd y dystiolaeth yn yr 17 set o nodiadau a adolygwyd gennym i ddangos bod gwerthusiadau rheolaidd o ofal yn cael eu cynnal.

Rheoli Cofnodion

3.17 Roedd yn rhwydd dilyn cofnodion cleifion ar y ward. Fodd bynnag, nodwyd achlysuron pan oedd staff wedi cwblhau cofnodion cleifion yn ôl-weithredol. Mae hwn yn annerbyniol. Gall cwblhau cofnodion yn ôl-weithredol olygu bod cofnodion yn anghyflawn neu'n cael eu cwblhau'n anghywir, ac felly, efallai na fydd aelodau staff nyrsio/meddygol yn cael gwybodaeth lawn am y gofal a'r driniaeth a ddarparwyd.

3.18 Adolygwyd cofnodion un claf yr oedd hysbysiad '*Na Cheisier Dadebru*' (DNAR) ar ei gyfer ar ddiwrnod ein hadolygiad. Fodd bynnag, nid oedd tystiolaeth i ddangos bod unrhyw drafod wedi bod â pherthynas agosaf neu deulu'r claf. Hefyd,

nid oedd y staff y bu i ni siarad â hwy yn ymwybodol bod penderfyniad DNAR wedi ei wneud.

Hylif a Maeth

3.19 Nid oedd amseroedd prydau bwyd gwarchoddedig ar waith ar y ward.

3.20 Cyn amser bwyd ar y ward, roedd yn peri pryder i ni weld tri aelod uwch o'r staff yn mynd am seibiant a oedd yn golygu mai dim ond ychydig o staff a oedd ar gael i ddarparu cymorth yn ystod y pryd bwyd. Gwelsom hefyd nad oedd y broses o baratoi'r cleifion cyn prydau bwyd yn ddigonol. Nid oedd y cleifion yn cael eu lleoli'n briodol cyn gweini eu prydau ac nid oedd byrddau'r erchwyn yn cael eu clirio/glanhau.

3.21 Roedd oedi wrth weini bwyd i'r cleifion oherwydd mai ychydig o staff oedd yn rhan o'r broses a bu oedi pellach wrth ddarparu cymorth i gleifion yr oedd angen help arnynt i fwyta eu prydau.

3.22 Cafodd rhai cleifion eu bwyd ar hambyrddau coch³. Fodd bynnag, gwelsom y cleifion hyn yn bwyta eu prydau heb gymorth gan staff ac nid oedd yn ymddangos bod unrhyw oruchwyliaeth gan staff i'r cleifion â hambyrddau coch.

3.23 Daeth un claf o hyd i bin bawd yn ei fwyd yn ystod y pryd bwyd i ni ei arsylwi. Yn sgil hyn, cymerodd aelodau staff ar y ward gamau ar unwaith a rhoi gwybod i'r adran arlwyo am y mater. Daeth y rheolwr arlwyo i'r ward ar unwaith i ymchwilio.

3.24 Gwelsom aelodau staff yn cwblhau siartiau bwyd cleifion ar ôl amser bwyd, ond nodwyd o adolygu cofnodion cleifion nad oedd siartiau bwyd a hylif yn cael eu cwblhau'n llawn yn gyson gan staff ar y ward.

³ Defnyddir system hambyrddau coch amser bwyd i nodi cleifion y mae angen help arnynt neu y mae angen monitro eu cymeriant dietegol

3.25 Gwelsom staff yn annog cleifion i yfed hylif ac roedd dŵr ffres ar gael fel mater o drefn, a jygiau a chwpanau'n cael eu rhoi o fewn cyrraedd rhwydd i'r cleifion.

Briwiau Pwyso

3.26 Gwelsom aelodau staff yn troi cleifion ac yn archwilio mannau pwyso yn rheolaidd ac yn briodol.

3.27 Roedd matresi/clustogau priodol wedi eu rhoi i gleifion mewn perygl uchel o niwed pwyso. Roedd asesiadau risg Waterlow⁴ ar waith ar gyfer cleifion yr ystyrid eu bod mewn perygl o ddatblygu briwiau pwyso ac roedd dogfennau bwndeli SKIN⁵ wedi eu cynnwys yn nodiadau'r cleifion, ond nodwyd bod lefel y manylder yn y dogfennau'n anghyson.

Gofal a Hylendid Personol

3.28 Roedd yn amlwg bod mwyafrif y cleifion ar y ward yn cael gofal da a bod eu hanghenion gofal personol yn cael eu diwallu. Gwelsom gleifion benywaidd yn gwisgo colur a dywedwyd wrthym fod y staff yn peintio eu hewinedd ac yn lliwio eu gwallt iddynt.

3.29 Fodd bynnag, nodwyd nad oedd darpariaeth gofal personol i gleifion yn gyson ac nad oedd yn cael ei chofnodi'n gyson yn nodiadau'r cleifion. Gwelsom nifer fach o gleifion nad oedd eu hanghenion gofal personol yn cael eu diwallu ac roedd gan rai cleifion ewinedd budr, un ohonynt yn glaf â dementia.

3.30 Roedd cleifion yn gwisgo eu dillad eu hunain a oedd yn edrych yn lân heb unrhyw staeniau. Fodd bynnag, nodwyd un claf a oedd yn gwisgo gŵn am ddim rheswm amlwg ac roedd claf arall yn ei wely heb drowsus pyjamas. Dywedwyd wrth

⁴ Offeryn polisi i asesu/atal y perygl o friwiau pwyso yw'r Waterlow.

⁵ Dull holistaidd syml o sicrhau bod pob claf yn cael y gofal priodol i atal niwed pwyso.

staff y ward am y materion hyn ar adeg ein hymweliad a chawsant eu datrys yn ystod yr ymweliad.

3.31 Ni welsom staff yn cynnig cyfleusterau golchi dwylo i gleifion cyn prydau bwyd.

3.32 Yn dilyn trafodaethau â'r staff, codwyd pryderon am ddarpariaeth dillad gwely i'r ward oherwydd bu adegau pan nad oedd digon ar gael a bu'n rhaid i'r staff ofyn i wardiau eraill am ddillad gwely ychwanegol.

Anghenion o Ran Mynd i'r Tŷ Bach

3.33 Gwelsom gleifion yn cael eu helpu gan staff i ddefnyddio'u dewis ddull o fynd i'r toiled. Fodd bynnag, roedd rhai cleifion y bu i ni siarad â hwy ar y ward wedi eu cysylltu â llinellau ocsigen, a dywedasant wrthym fod y rhain yn eu rhwystro rhag defnyddio eu dewis ddull o fynd i'r toiled.

3.34 Roedd y comedau a oedd ar gael ar y ward yn lân. Fodd bynnag, nodwyd bod caead un comôd wedi torri.

Seinyddion

3.35 Roedd yn peri pryder i ni nodi mai dim ond hanner y cleifion ar y ward oedd yn gallu cael gafael ar seinydd ar erchwyn y gwely. Dywedodd un claf wrthym fod yn rhaid iddo ofyn i gael defnyddio seinydd y claf yn y gwely drws nesaf pan oedd angen cymorth nyrs arno. Fe'n hysbyswyd yn ystod y cyfarfod adborth â chynrychiolwyr y Bwrdd lechyd fod seinyddion newydd wedi eu danfon ar ddiwrnod ein harolygiad a fyddai'n sicrhau bod gan bob claf ei seinydd ei hun.

3.36 Dywedodd y cleifion y bu i ni siarad â hwy bod amseroedd ymateb y staff i seinyddion yn dda yn gyffredinol. Fodd bynnag, gallai fod oedi wrth ymateb os oedd staff ar y ward yn brysur.

3.37 Roedd seinyddion brys ar gael yn y toiledau a'r ystafelloedd ymolchi ar y ward.

Cyfathrebu

3.38 Roedd staff ar y ward yn gwybod sut i gael gafael ar gyfieithwyr. Roedd system ddolen ar gael ar y ward; fodd bynnag, canfuom nad oedd y rhan fwyaf o'r staff yn ymwybodol o'r system. Nid oedd unrhyw gymhorthion cyfathrebu eraill ar gael i gynorthwyo'r cleifion hynny â nam ar y synhwyr.

3.39 Dywedodd y cleifion a'r perthnasau y bu i ni siarad â hwy fod aelodau staff yn eu cynnwys mewn penderfyniadau'n ymwneud â'r gofal a'r driniaeth y maent yn eu derbyn.

Rheoli Meddyginiaethau a Rheoli Poen

3.40 Ni chododd y cleifion y bu i ni siarad â hwy ar y ward unrhyw faterion yn ymwneud â rheoli poen. Fodd bynnag, nodwyd nad oedd unrhyw ddulliau asesu poen (mesuriadau o ddifrifoldeb poen ac effeithiolrwydd lladdwyr poen) yn cael eu defnyddio ar y ward.

3.41 Yn ystod y rownd feddyginiaeth, gwelsom aelodau staff yn gadael meddyginiaeth cleifion ar fyrddau'r erchwyn heb aros i'w goruchwyllo'n cymryd y feddyginiaeth.

Cynllunio ar Gyfer Rhyddhau Cleifion

3.42 Cynllunnir rhyddhau cleifion o'r ward gan gydgysylltydd y shift. Fe'n hysbyswyd fod adegau pan fydd y cydgysylltydd yn cael ei gynnwys yn y niferoedd staffio oherwydd pwysau ar y ward, a gall hyn arwain at oedi o ran y broses cynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion.

3.43 Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion y bu i ni siarad â hwy fod y staff wedi eu cynnwys mewn trafodaethau ynghylch pryd y gallent ddisgwyl gadael y ward a'r hyn

a fyddai'n digwydd pan fyddent yn gadael. Fodd bynnag, roedd diffyg manylion ynghylch cerrig milltir cynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion yng nghofnodion rhai cleifion a dywedodd rhai cleifion wrthym nad oeddent wedi cael eu cynnwys mewn trafodaethau'n ymwneud â'u rhyddhau o'r ysbyty.

Gweithgareddau

3.44 Gall gweithgareddau hamdden ar wardiau ysbyty (gan gynnwys gemau bwrdd, cardiau a bingo) gynnig cyfle i gleifion wella eu hansawdd bywyd trwy ymdeimlad cynyddol o reolaeth, rhyngweithio cymdeithasol, cymorth cymdeithasol a chyflawni nodau sy'n seiliedig ar dasgau. Gall hefyd helpu pobl sy'n agored i niwed i ddatblygu neu ailafael mewn sgiliau cymdeithasol mewn amgylchedd a reolir. Mae gwaith ymchwil⁶ wedi dangos bod gweithgareddau ar wardiau ysbyty yn cael amryw o effeithiau cadarnhaol ar gleifion mewnol, gan gynnwys:

- Sbarduno newidiadau ffisiolegol a seicolegol cadarnhaol i ganlyniadau clinigol.
- Lleihau faint o gyffuriau a gymerir.
- Lleihau hyd arhosiad yn yr ysbyty.
- Hybu perthynas well rhwng meddyg a chlaf.
- Gwella iechyd meddwl.

3.45 Fel y nodwyd eisoes, nid oedd ystafell ddydd ar gael ar y ward.

3.46 Roedd setiau teledu ar gael ar erchwyn gwely pob claf. Fodd bynnag, dywedodd y cleifion y bu i ni siarad â hwy ei bod yn ddrud defnyddio'r setiau teledu. Nid oedd rownd bapurau newydd nac unrhyw dystiolaeth arall o symbylu neu weithgareddau i gleifion.

⁶ Cymdeithas Feddygol Prydain, *'The psychological and social needs of patients,'* Ionawr 2011.

Ward A6 (Ward Anafiadau a Thrawma Asgwrn Cefn)

Amgylchedd y Ward

3.47 Roedd y ward yn lân ac yn daclus ar y cyfan. Canmolwyd glendid y ward gan y rhan fwyaf o'r cleifion y bu i ni siarad â hwy. Fodd bynnag, roedd annibendod drwy'r ward ar ddiwrnod ein hymweliad, yn enwedig yn y prif goridor, oherwydd mai ychydig o fannau storio oedd ar gael.

3.48 Roedd ystafell gawod a thri thoiled ar gael ar y ward; roeddent yn lân ac roedd y mecanweithiau cloi priodol ar gael. Fodd bynnag, nodwyd nad oedd arwyddion ar bob un o'r drysau a bod y toiledau'n cael eu defnyddio gan ddynion a menywod er bod un o'r toiledau wedi ei neilltuo ar gyfer dynion yn unig.

3.49 Roedd y llenni'n cael eu cau pan oedd cleifion yn derbyn gofal/triniaeth bersonol ac roedd arwyddion urddas ar gael i'w rhoi ar lenni wedi eu cau i hysbysu eraill am y gofal a oedd yn cael ei ddarparu. Fodd bynnag, nid oedd yr arwyddion yn cael eu defnyddio'n gyson gan y staff.

3.50 Roedd ystafell ddydd ar gael i gleifion ar y ward ei defnyddio.

Agwedd ac Ymddygiad y Staff a'u Gallu i Ddarparu Gofal ag Urddas

3.51 Yn ystod cyfnod ein harolygiad, roedd arweinyddiaeth ragorol i'w gweld ar y ward gan Brif Nyrs y ward, a gwelwyd y staff yn trin cleifion mewn ffordd broffesiynol gan roi sylw priodol iddynt. Canmolwyd Prif Nyrs y ward gan y staff y bu i ni siarad â hwy ar y ward hefyd.

3.52 Gwelsom staff yn gofalu am gleifion mewn ffordd foesgar a chwrtais iawn. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion y bu i ni siarad â hwy fod y staff yn gwrtais â hwy ac â'u ffrindiau a'u teuluoedd. Fodd bynnag, codwyd pryderon gan glaf am agwedd rhai o'r staff tuag at gleifion. Er na welsom ymddygiad o'r fath hyn, trafodwyd y

pryderon â Phrif Nyrs y ward a ddywedodd wrthym ei bod yn ymwybodol o'r materion ac wrthi'n ymchwilio i'r pryderon.

3.53 Roedd y staff yn dangos ymwybyddiaeth o'r angen am ddisgresiwn wrth gyfleu gwybodaeth sensitif. Fodd bynnag, gwelsom un rownd ward lle'r oedd rhai o'r staff meddygol yn cyfleu gwybodaeth sensitif yn uchel fel y gellid eu clywed.

3.54 Roedd y lefelau staffio ar ddiwrnod yr arolygiad yn briodol. Dywedodd staff wrthym fod un nyrs gofrestredig a thri gweithiwr cymorth gofal iechyd ar gyfer pob chwe chlaf.

3.55 Gwelsom nad oedd pob aelod o staff ar ddyletswydd yn gwisgo bathodyn adnabod i ddangos pwy oeddent.

Rheoli Cleifion sy'n Ddryslyd Neu Sydd â Dementia

3.56 Nid oedd mentrau ar waith ar y ward i gynorthwyo aelodau staff i ofalu am gleifion â dryswch neu ddementia. Nid oedd arwyddion lluniau mawr ar ystafelloedd ymolchi/ystafelloedd cawod cleifion i gynorthwyo'r holl gleifion, yn enwedig cleifion â dryswch neu ddementia, i ddod o hyd iddynt.

3.57 Roedd gan rai o'r staff y bu i ni siarad â hwy ar y ward wybodaeth dda am ofal dementia yn briodol oherwydd yr hyfforddiant yr oeddent wedi ei dderbyn, ond nid oedd cleifion â dementia ar y ward ar adeg yr arolygiad er mwyn arsylwi'r sgiliau hyn.

Cynllunio a Darparu Gofal

3.58 Roedd asesiadau cleifion ar gael, ond nodwyd nad oedd yr asesiadau wedi eu cwblhau'n llawn bob amser – siartiau cydbwysedd bwyd a hylif er enghraifft.

3.59 Roedd cynlluniau gofal ar waith ar gyfer pob claf asgwrn cefn; fodd bynnag, nodwyd nad oedd gan bob un o'r cleifion nad oeddent yn rhai asgwrn cefn gynllun gofal. Hefyd, roedd y cynlluniau gofal yn rhai generig ac nid oeddent yn nodi cynnydd ac anghenion penodol y claf unigol.

3.60 Nodwyd nad oedd y cynlluniau gofal a oedd ar waith bob amser yn gyson â'r asesiadau cleifion a gynhaliwyd. Nodwyd hefyd nad oedd pob cynllun gofal yn cael ei werthuso ac roedd rhai nad oeddent wedi eu diweddarau'n rheolaidd.

Rheoli Cofnodion

3.61 Roedd yn hawdd dilyn cofnodion meddygol y cleifion. Fodd bynnag, fel y soniwyd eisoes, nodwyd nad oedd rhai dogfennau cleifion megis siartiau bwyd a hylif wedi eu cwblhau'n llawn gan y staff fel mater o drefn.

Hylif a Maeth

3.62 Roedd amseroedd prydau bwyd gwarchoddedig ar waith ar y ward ac roedd aelodau'r teulu'n cael eu hannog i ddod i mewn i helpu eu perthnasau i fwyta, os oedd angen cymorth arnynt.

3.63 Cyn y pryd bwyd, gwelsom y cleifion hynny a oedd yn gallu gwneud hynny'n eistedd allan o'u gwelyau, a gwelsom staff yn cynorthwyo cleifion i'w gwneud eu hunain yn fwy cyfforddus i fwyta hefyd.

3.64 Gwelsom staff yn glanhau'r rhan fwyaf o fyrddau erchwyn y cleifion cyn gweini eu prydau bwyd, ond, pan nad oedd byrddau wedi cael eu glanhau/clirio, roedd yn rhaid i'r staff a oedd yn dosbarthu prydau bwyd y cleifion wneud lle i'r hambyrddau bwyd.

3.65 Roedd system yr hambyrddau coch ar waith ar y ward i nodi'r cleifion hynny yr oedd angen cymorth arnynt i fwyta eu bwyd. Er nad oedd angen cymorth ar y rhan fwyaf o'r cleifion ar y ward i fwyta, roedd staff a pherthnasau'n helpu'r rhai yr oedd angen cymorth arnynt.

3.66 Roedd dŵr ffres ar gael fel mater o drefn i gleifion ar y ward ac roedd jygiau a chwpanau o fewn cyrraedd rhwydd i'r cleifion.

3.67 Dywedodd y cleifion y bu i ni siarad â hwy wrthym fod y staff yn helpu'r cleifion hynny y mae angen cymorth arnynt i yfed. Fodd bynnag, prin oedd yr anogaeth a welsom gan staff i sicrhau bod y cleifion yn yfed hylif a dywedodd rhai o'r cleifion y bu i ni siarad â hwy wrthym nad yw'r bwyd y maent yn ei dderbyn ar y ward yn flasus iawn.

3.68 Gwelsom staff yn cwblhau siartiau bwyd cleifion ar ôl prydau bwyd, ond nodwyd o adolygu cofnodion y cleifion nad oedd siartiau bwyd a hylif yn cael eu cwblhau'n llawn ac yn gyson gan staff ar y ward.

Briwiau Pwyso

3.69 Roedd asesiadau risg Waterlow ar waith ar gyfer cleifion yr ystyrid eu bod mewn perygl o ddatblygu briwiau pwyso. Roedd yr asesiadau risg yn cyfeirio'n briodol at y bwndeli SKIN a gwelsom dystiolaeth o gleifion yn cael eu troi'n rheolaidd.

3.70 Roedd matresi/clustogau priodol wedi eu darparu i gleifion a oedd mewn perygl mawr o niwed pwyso.

Gofal a Hylendid Personol

3.71 Roedd yn ymddangos bod cleifion ar y ward yn lân ac yn derbyn gofal da. Roedd rhai cleifion mewn gynau; fodd bynnag, roedd y mwyafrif yn gwisgo eu dillad eu hunain a oedd yn edrych yn lân. Hefyd, dywedodd y cleifion y bu i ni siarad â hwy wrthym eu bod yn gallu ymolchi a glanhau eu dannedd mor rheolaidd ag yr oeddent yn ei ddymuno.

3.72 Roedd staff yn cofnodi darpariaeth gofal personol bob dydd yng nghofnodion meddygol y cleifion.

3.73 Fodd bynnag, cyn y pryd bwyd ar y ward, ni welsom y staff yn cynnig cyfleusterau golchi dwylo i gleifion.

Anghenion o Ran Mynd i'r Tŷ Bach

3.74 Gwelsom staff yn cynorthwyo cleifion a oedd yn gallu gwneud hynny i fynd i'r toiled ac yn ôl mewn ffordd sensitif a synhwyrol. Hefyd, dywedodd cleifion wrthym fod staff yn eu cynorthwyo i ddefnyddio'u dewis ddull o ddefnyddio'r toiled mewn ffordd sensitif.

3.75 Fel y soniwyd eisoes, nodwyd fod prinder toiledau ar gael ar y ward ac roedd dynion a menywod yn defnyddio'r toiledau neilltuedig.

3.76 Roedd y comedau a oedd ar gael ar y ward wedi eu glanhau'n briodol.

Seinyddion

3.77 Roedd seinydd o fewn cyrraedd i bob claf ar y ward a gwelsom staff yn ymateb yn brydlon pan ddefnyddid y seinyddion. Hefyd, dywedodd y cleifion y bu i ni siarad â hwy fod staff yn ymateb yn gyflym pan fo cleifion yn defnyddio'r seinyddion. Fodd bynnag, nodwyd bod seinydd argyfwng yn un o doiledau'r cleifion wedi torri.

Cyfathrebu

3.78 Roedd staff y ward yn gwybod sut i gael gafael ar gyfieithwyr ac roedd arwyddion lluniau ar gael i gynorthwyo cleifion â nam ar eu clyw i gyfathrebu. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw gymhorthion cyfathrebu eraill ar gael i gynorthwyo'r cleifion hynny â nam ar y synhwyrau.

3.79 Dywedodd y cleifion y bu i ni siarad â hwy wrthym fod y staff yn eu cynnwys mewn trafodaethau'n ymwneud â'u gofal a'u triniaeth.

Rheoli Meddyginiaeth a Rheoli Poen

3.80 Ni chododd y cleifion y bu i ni siarad â hwy unrhyw faterion yn ymwneud â rheoli poen ar y ward. Roedd sgoriau asesu poen ar gael yng nghofnodion y cleifion ac roedd tystiolaeth bod y sgoriau'n cael eu hadolygu.

3.81 Gwelsom aelodau staff yn goruchwyllo cleifion yn cymryd eu meddyginiaeth yn ystod y rownd feddyginiaeth.

Cynllunio ar gyfer Rhyddhau Cleifion

3.82 Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion y bu i ni siarad â hwy eu bod wedi cael gwybod y dyddiad y gallent ddisgwyl cael eu rhyddhau a'r hyn fyddai'n digwydd pan fyddent yn gadael. Fodd bynnag, dywedodd rhai cleifion wrthym nad oeddent wedi cymryd rhan mewn unrhyw drafodaethau'n ymwneud â'u rhyddhau o'r ysbyty.

3.83 Dywedodd aelodau o'r staff wrthym fod anawsterau o ran cael gafael ar weithwyr cymdeithasol a chyfathrebu â hwy wedi peri oedi wrth ryddhau cleifion o'r ward ar adegau.

Gweithgareddau

3.84 Roedd ystafell ddydd ar gael i gleifion ar y ward ei defnyddio ac roedd llyfrau, cylchgronau a rhai gemau bwrdd ar gael yno. Fodd bynnag, ni welsom yr un claf yn defnyddio'r ystafell yn ystod ein hymweliad.

3.85 Roedd setiau teledu ar gael wrth bob gwely a rownd bapurau newydd ar y ward. Fodd bynnag, nid oedd dim tystiolaeth o unrhyw anogaeth i ddefnyddio'r ystafell ddydd na'r gweithgareddau i gleifion ar y ward.

4. Argymhellion

4.1 Darparwyd canfyddiadau ac argymhellion cysylltiedig ar ffurf adborth llafar trwy gydol yr arolygiad ac yn fwy ffurfiol yn y cyfarfod adborth a gynhaliwyd ar ddiwedd ail ddiwrnod yr ymweliad. Hysbyswyd y Bwrdd lechyd am unrhyw bryderon uniongyrchol a oedd yn deillio o'r arolygiad hefyd, trwy lythyr i'r rheolwyr yn dilyn yr arolygiad, fel y gellid cymryd camau ar unwaith.

4.2 O ystyried y canfyddiadau sy'n deillio o'r adolygiad hwn, rydym yn gwneud yr argymhellion canlynol.

Rhif	Argymhelliad	Cyfeirnod Paragraff
Amgylchedd y Ward		
1.1	Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod holl aelodau'r staff yn ymwybodol o bwysigrwydd sicrhau bod llenni o amgylch gwelyau wedi eu cau'n iawn wrth ddarparu gofal a thriniaeth bersonol i gleifion.	3.5
1.2	Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau y rhoddir mesurau ar waith i sicrhau ei bod yn glir fod gofal a thriniaeth bersonol yn cael eu darparu i gleifion er mwyn sicrhau urddas y claf	3.5, 3.49
1.3	Dylai'r Bwrdd lechyd adolygu'r trefniadau storio ar A6 i sicrhau y gellir storio offer yn briodol.	3.47
1.4	Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod yr holl doiledau wedi eu neilltuo ar gyfer dynion neu fenywod a bod y staff yn annog cleifion i ddefnyddio'r toiledau cywir.	3.48, 3.75
Agwedd ac Ymddygiad y Staff a'u Gallu i Ddarparu Gofal ag Urddas		
2.1	Dylai'r Bwrdd lechyd adolygu ei lefelau staffio cyfredol ar B7 i sicrhau eu bod yn ddigonol pan fydd y ward yn llawn a/neu pan fydd lefel uwch o ddifrifoldeb ymhlith y cleifion.	3.9
2.2	Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod holl aelodau'r staff yn gwisgo bathodynau adnabod pan fyddant ar ddyletswydd.	3.10, 3.55
2.3	Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod staff sy'n cyflawni rowndiau meddygol yn gwneud hynny mewn ffordd synhwyrol a sensitif er mwyn sicrhau preifatrwydd ac urddas i gleifion	3.53
Rheoli Cleifion sy'n Ddryslyd Neu Sydd â Dementia		
3.1	Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod arwyddion lluniau mawr ar gael ar gyfleusterau cleifion megis ystafelloedd ymolchi a thoiledau.	3.12, 3.56
3.2	Dylai'r Bwrdd lechyd ddarparu hyfforddiant ymwybyddiaeth dementia i'r staff.	3.13, 3.57

Rhif	Argymhelliad	Cyfeirnod Paragraff
Cynllunio a Darparu Gofal		
4.1	Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod cleifion yn derbyn asesiadau priodol.	3.14
4.2	Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod asesiadau cleifion yn cael eu cwblhau'n llawn gan y staff a'u bod yn cael eu defnyddio i lywio cynllun gofal y claf fel mater o drefn.	3.15, 3.58, 3.60
4.3	Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod gan yr holl gleifion mewnol gynlluniau gofal sy'n adlewyrchu'r anghenion penodol a bod y cynlluniau gofal hyn yn cael eu gwerthuso'n rheolaidd.	3.16, 3.59
Rheoli Cofnodion		
5.1	Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu cwblhau gan y staff ar unwaith yn dilyn gofal a thriniaeth.	3.17, 3.61
5.2	Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod pob ffurflen DNAR yn cael ei chwblhau'n llawn gan gynnwys tystiolaeth o drafodaethau â'r claf a/neu deulu'r claf.	3.18
Hylif a Maeth		
6.1	Dylai'r Bwrdd lechyd ystyried rhoi amser gwarchoddedig ar gyfer prydau bwyd ar waith ar B7.	3.19
6.2	Dylai'r Bwrdd lechyd adolygu rota seibiannau'r staff er mwyn sicrhau bod digon o staff ar y ward adeg prydau bwyd.	3.20
6.3	Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod pob claf yn cael ei baratoi'n briodol cyn prydau bwyd.	3.21, 3.64
6.4	Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod yr holl gleifion y mae angen cymorth arnynt i fwyta eu bwyd yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt.	3.21
6.5	Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod holl aelodau'r staff yn ymwybodol o ddiben y fenter hambyrddau coch a sicrhau bod defnydd o'r hambyrddau coch yn briodol	3.22
6.6	Dylai'r Bwrdd lechyd roi sicrwydd i AGIC y cynhaliwyd ymchwiliad mewnol i ddod o hyd i darddiad y pin bawd a dweud pa gamau a gymerwyd i sicrhau nad oes dim byd tebyg yn digwydd yn y dyfodol.	3.23
6.7	Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod bwyd sy'n cael ei fwyta gan gleifion yn cael ei gofnodi yng nghofnodion y cleifion.	3.24, 3.68
6.8	Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod cleifion yn cael eu hannog i yfed hylif fel mater o drefn.	3.67
Briwiau Pwyso		
7.1	Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod dogfennau bwndeli SKIN yn cael eu cwblhau'n llawn ac yn cael eu diweddarau'n rheolaidd gan y staff.	3.27
Gofal a Hylendid Personol		
8.1	Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod holl aelodau'r staff yn	3.29

Rhif	Argymhelliad	Cyfeirnod Paragraff
	ymwybodol o bob agwedd ar anghenion gofal personol cleifion ac yn cadw atynt.	
8.2	Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod cleifion yn gwisgo eu dillad eu hunain lle bo hynny'n bosibl.	3.30, 3.71
8.3	Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau y rhoddir cyfle i bob claf olchi ei ddwylo cyn prydau bwyd.	3.31, 3.73
8.4	Dylai'r Bwrdd lechyd adolygu darpariaeth dillad gwely er mwyn sicrhau bod cyflenwad digonol ar gael ar wardiau yn gyson.	3.32
Anghenion o Ran Mynd i'r Tŷ Bach		
9.1	Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod cleifion yn cael cymorth gan staff i ddefnyddio'u dewis ddull o ddefnyddio'r toiled.	3.33
9.2	Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod unrhyw gomodau sydd wedi eu difrodi yn cael eu newid neu eu trwsio.	3.34
9.3	Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod digon o doiledau ar gael ar bob ward.	3.75
Seinyddion		
10.1	Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod seinydd sy'n gweithio'n iawn ar erchwyn y gwely ar gael i bob claf.	3.35
10.2	Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod staff yn ceisio ateb seinyddion yn brydlon neu gynnig esboniad a chysur i gleifion os na allant wneud hynny oherwydd eu bod yn brysur.	3.36
10.3	Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod y seinydd a oedd wedi torri a nodwyd ar ward A6 yn cael ei drwsio.	3.77
Cyfathrebu		
11.1	Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod cymhorthion cyfathrebu ar gael i gynorthwyo cleifion â nam ar y synhwyrâu a bod aelodau staff yn ymwybodol o'r cymhorthion.	3.38, 3.78
Rheoli Meddyginiaeth a Rheoli Poen		
12.1	Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau y cynhelir asesiad poen ar unwaith ar ôl nodi bod claf mewn poen; dylai sicrhau hefyd y rhoddir cynllun gweithredu ar waith a'i adolygu a'i werthuso'n rheolaidd.	3.40
12.2	Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod staff yn sicrhau bod cleifion yn cymryd eu meddyginiaeth pan y'i rhoddir iddynt ac felly nad yw'n cael ei gadael heb ei goruchwylio ar gypyrddau erchwyn cleifion.	3.41
Cynllunio ar gyfer Rhyddhau Cleifion		
13.1	Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod systemau ar waith i atal oedi wrth ryddhau cleifion.	3.42, 3.82
13.2	Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod cleifion, a'u perthnasau pan fo hynny'n briodol, yn cael eu cynnwys yn y broses o gynllunio i'w rhyddhau.	3.43, 3.83

Rhif	Argymhelliad	Cyfeirnod Paragraff
Gweithgareddau		
14.1	Dylai'r Bwrdd Iechyd ystyried ffyrdd o ddarparu gweithgareddau a symbyliad i gleifion trwy gydol eu harhosiad yn yr ysbyty.	3.44, 3.84

5. Y Camau Nesaf

5.1 Mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd Iunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r materion allweddol a amlygwyd yn yr adroddiad hwn a'i gyflwyno i AGIC o fewn pythefnos i ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad. Dylai'r cynllun gweithredu nodi'n eglur pryd a sut y rhoddwyd sylw i'r materion a nodwyd gennym yn y ddwy uned yr ymwelwyd â hwy, yn ogystal ag amserlenni ar gyfer sicrhau nad yw'r problemau'n cael eu hailadrodd mewn rhannau eraill o'r Bwrdd Iechyd.

5.2 Yna cyhoeddir y cynllun gweithredu hwn ar wefan AGIC, a'i fonitro yn rhan o broses fonitro reolaidd AGIC.

Atodiad A

Swyddogaethau a Chyfrifoldebau Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yw'r arolygiaeth a'r rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer pob gwasanaeth gofal iechyd yng Nghymru. Mae AGIC yn canolbwyntio'n bennaf ar:

- Wneud cyfraniad sylweddol i wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru.
- Gwellu profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru pa un ai fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu weithiwr cyflogedig.
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd yr adolygir gwasanaethau iechyd.
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, berthnasol a rhwydd cael gafael arni am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Prif swyddogaeth AGIC yw adolygu ac arolygu sefydliadau gofal iechyd y GIG a sefydliadau gofal iechyd annibynnol yng Nghymru er mwyn rhoi sicrwydd annibynnol i gleifion, y cyhoedd, Llywodraeth Cymru a darparwyr gofal iechyd bod y gwasanaethau'n ddiogel ac o ansawdd da.

Adolygir gwasanaethau yn unol ag amrywiaeth o safonau, polisïau, canllawiau a rheoliadau cyhoeddedig. Yn rhan o'r gwaith hwn, bydd AGIC yn ceisio nodi a chefnogi gwelliannau mewn gwasanaethau a'r camau sydd eu hangen i'w cyflawni. Os bydd angen, bydd AGIC yn cynnal ymchwiliadau ac adolygiadau arbennig pan ymddengys bod methiannau systematig wrth ddarparu gwasanaethau gofal iechyd er mwyn sicrhau y gwneir gwelliannau ac y dysgir gwersi'n gyflym. Yn ogystal, AGIC yw'r rheoleiddiwr ar gyfer darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru a'r Awdurdod Goruchwylio Lleol ar gyfer goruchwyliaeth statudol bydwagedd.

Mae AGIC yn cyflawni ei swyddogaethau ar ran Gweinidogion Cymru ac, er ei bod yn rhan o Lywodraeth Cymru, mae protocolau wedi'u sefydlu i ddiogelu ei

hannibyniaeth weithredol. Mae prif swyddogaethau a chyfrifoldebau AGIC yn deillio o'r ddeddfwriaeth ganlynol:

- Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003.
- Deddf Safonau Gofal 2000 a'r rheoliadau cysylltiedig.
- Deddf Iechyd Meddwl 1983 a Deddf Iechyd Meddwl 2007.
- Goruchwyliaeth Statudol Bydwragedd fel y'i nodir yn Erthyglau 42 a 43 o Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001.
- Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000 a Rheoliadau Diwygio 2006.

Mae AGIC yn gweithio'n agos gydag arolygiaethau a rheoleiddwyr eraill wrth gynnal adolygiadau traws-sector ym meysydd gofal cymdeithasol, addysg a chyfiawnder troseddol, ac wrth ddatblygu dulliau mwy cymesur a chydgysylltiol o adolygu a rheoleiddio gofal iechyd yng Nghymru.

Y Cefndir a'r Fethodoleg ar Gyfer yr Arolygiadau Urddas a Gofal Hanfodol

Dechreuwyd cynnal rhaglen Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) o Arolygiadau Urddas a Gofal Hanfodol ym mis Tachwedd 2011.

Mae'r tîm arolygu yn cynnwys un o arolygwyr AGIC, dwy nyrs brofiadol sy'n ymarfer ac adolygwr 'lleyg'.

Mae'r tîm yn defnyddio nifer o ddulliau arolygu i gasglu gwybodaeth am y ward/uned yn yr ysbyty. Yn ystod yr ymweliadau, bydd y tîm yn arsylwi, yn sgwrsio â chleifion, gofalwyr, perthnasau ac aelodau staff, ac yn edrych ar gofnodion iechyd. Mae'r dulliau arolygu a ddefnyddir ar gyfer arolygiadau Urddas a Gofal Hanfodol ar hyn o bryd ar gael ar ein gwefan.

Ar ôl i ysbyty gael ei arolygu, caiff adroddiad o'r canfyddiadau ei lunio a'i gyflwyno i'r Bwrdd Iechyd. Mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd ddarparu cynllun gweithredu i AGIC wedyn, i fynd i'r afael â'r materion allweddol a amlygwyd.

Adolygwyd nifer o adroddiadau allanol a gyhoeddwyd gan sefydliadau fel Cymdeithas y Cleifion, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, yn ogystal â gwybodaeth gan y cyhoedd ac arolygiadau blaenorol AGIC. Yn sgil y wybodaeth hon, datblygwyd dull arolygu sy'n canolbwyntio ar y meysydd canlynol:

- Amgylchedd y claf.
- Agwedd / ymddygiad y staff / eu gallu i ddarparu gofal ag urddas.
- Cynllunio a darparu gofal.
- Briwiau pwyso.
- Hylif a maeth.
- Gofal a hylendid personol.

- Anghenion o ran mynd i'r tŷ bach.
- Seinyddion.
- Cyfathrebu.
- Rheoli meddyginiaeth a rheoli poen.
- Rheoli cofnodion.
- Rheoli cleifion sy'n ddryslud.
- Gweithgareddau a symbyliad.
- Cynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion o'r ysbyty.

Mae'r arolygiadau hyn wedi eu cynllunio i adolygu'r gofal a'r driniaeth a dderbynnir gan bob claf yn yr ysbyty, yn enwedig cleifion hŷn y mae ymchwil wedi profi y gallant fod yn arbennig o agored i niwed tra eu bod yn aros yn yr ysbyty.

Themâu Urddas a Gofal Hanfodol, Hawliau Dynol a Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd yng Nghymru

Mae'r ddogfen hon yn dangos sut y mae'r themâu a adolygir yn ystod arolygiad Urddas a Gofal Hanfodol yn cyd-fynd â 'Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well – Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru' a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

Thema Urddas a Gofal Hanfodol	Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol	Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well – Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru
Amgylchedd y ward	<p>Yr hawl i ryddid a diogelwch (Erthygl 5).</p> <p>Diogelwch rhag artaith a thriniaeth greulon a diraddiol (Erthygl 3).</p> <p>Yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol (Erthygl 8).</p>	<p>12. Yr Amgylchedd</p> <p>Mae sefydliadau a gwasanaethau yn cydymffurfio â deddfwriaeth a chanllawiau er mwyn darparu amgylcheddau sydd:</p> <p>d) yn ddiogel ac yn sicr; e) yn diogelu preifatrwydd.</p>
Agwedd ac ymddygiad y staff a'u gallu i ddarparu gofal ag urddas	<p>Diogelwch rhag artaith a thriniaeth greulon a diraddiol (Erthygl 3).</p> <p>Diogelwch rhag gwahaniaethu (Erthygl 14).</p>	<p>2. Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol</p> <p>Mae gan sefydliadau a gwasanaethau flaenoriaethau cydraddoldeb yn unol â'r deddfwriaeth sy'n sicrhau eu bod yn adnabod ac yn mynd i'r afael ag:</p> <p>a) anghenion unigolion, waeth beth fo'u hunaniaeth a'u cefndir, ac yn cynnal eu hawliau dynol.</p>

		<p>10. Urddas a pharch</p> <p>Mae sefydliadau a gwasanaethau yn cydnabod ac yn mynd i'r afael ag anghenion a dewisiadau corfforol, seicolegol, cymdeithasol, diwylliannol, ieithyddol ac ysbrydol unigolion ac yn sicrhau bod eu hawl i urddas a pharch yn cael ei diogelu a'i bodloni.</p> <p>26. Hyfforddi'r gweithlu a datblygiad sefydliadol</p> <p>Mae sefydliadau a gwasanaethau yn sicrhau bod eu gweithlu yn cael cymorth priodol i'w galluogi:</p> <p>a) i gynnal a datblygu cymwyseddau er mwyn iddynt gyrraedd eu holl botensial; b) i gymryd rhan mewn rhaglenni cynefino a rhaglenni hyfforddi gorfodol; c) i gael arfarniad personol blynyddol a chynllun datblygu personol i'w galluogi i ddatblygu eu rôl; d) i ddangos eu bod yn cymryd rhan mewn cynllun datblygu proffesiynol a galwedigaethol parhaus; ac e) i gael cyfleoedd i ddatblygu eu harferion cydweithredol a'u sgiliau gweithio mewn tîm.</p>
<p>Rheoli cleifion sy'n ddryslyd neu sydd â dementia</p>	<p>Diogelwch rhag artaith a thriniaeth greulon a diraddiol (Erthygl 3).</p> <p>Yr hawl i ryddid a diogelwch (Erthygl 5).</p> <p>Diogelwch rhag gwahaniaethu (Erthygl 14).</p>	<p>2. Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol</p> <p>Mae gan sefydliadau a gwasanaethau flaenoriaethau cydraddoldeb yn unol â'r ddeddfwriaeth sy'n sicrhau eu bod yn adnabod ac yn mynd i'r afael ag:</p> <p>a) anghenion unigolion, waeth beth fo'u hunaniaeth a'u cefndir, ac yn cynnal eu hawliau dynol.</p> <p>8. Cynllunio a darparu gofal</p> <p>Mae sefydliadau a gwasanaethau yn cydnabod ac yn mynd i'r afael ag anghenion cleifion, defnyddwyr gwasanaethau a'u gofalwyr:</p> <p>a) drwy sicrhau bod pob agwedd ar ofal,</p>

		gan gynnwys atgyfeirio, asesu, gwneud diagnosis, trin, trosglwyddo gofal, rhyddhau a gofal diwedd oes, yn cael ei darparu'n amserol ac yn gyson ag amserlenni a llwybrau cenedlaethol a'r arferion gorau.
Cynllunio a darparu gofal	<p>Diogelwch rhag artaith a thriniaeth greulon a diraddiol (Erthygl 3).</p> <p>Yr hawl i ryddid a diogelwch (Erthygl 5).</p> <p>Diogelwch rhag gwahaniaethu (Erthygl 14).</p> <p>Rhyddid mynegiant (Erthygl 10).</p>	<p>7. Gofal sy'n ddiogel ac yn glinigol effeithiol</p> <p>Bydd sefydliadau a gwasanaethau yn sicrhau bod cleifion a defnyddwyr gwasanaethau yn cael triniaeth a gofal diogel ac effeithiol:</p> <p>a) sy'n seiliedig ar arferion gorau a chanllawiau y cytunwyd arnynt, gan gynnwys y rhai a nodir yn y Fframweithiau Gwasanaeth Cenedlaethol, ac yng nghanllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol (NICE), yr Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion (NPSA), a chyrff proffesiynol;</p> <p>b) sy'n cydymffurfio â chyfarwyddebau diogelwch a chlinigol mewn modd amserol; ac</p> <p>c) a amlygir drwy weithdrefnau ar gyfer cofnodi ac archwilio cydymffurfiaeth a diffyg cydymffurfiaeth ag unrhyw un o'r uchod.</p> <p>8. Cynllunio a darparu gofal</p> <p>Mae sefydliadau a gwasanaethau yn cydnabod ac yn mynd i'r afael ag anghenion cleifion, defnyddwyr gwasanaethau a'u gofalwyr:</p> <p>a) drwy sicrhau bod pob agwedd ar ofal, gan gynnwys atgyfeirio, asesu, gwneud diagnosis, trin, trosglwyddo gofal, rhyddhau a gofal diwedd oes, yn cael ei darparu'n amserol ac yn gyson ag amserlenni a llwybrau cenedlaethol a'r arferion gorau;</p> <p>b) drwy helpu i ddatblygu gallu pobl i ofalu amdanynt eu hunain a hybu adsefydlu ac ailalluogi; ac c) drwy weithio mewn partneriaeth â gwasanaethau a chyrff eraill, gan gynnwys gwasanaethau cymdeithasol a'r trydydd sector.</p>
Cyfathrebu	Rhyddid mynegiant	2. Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

	<p>(Erthygl 10).</p> <p>Diogelwch rhag gwahaniaethu (Erthygl 14).</p> <p>Diogelwch rhag artaith a thriniaeth greulon a diraddiol (Erthygl 3).</p> <p>Yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol (Erthygl 8).</p>	<p>Mae gan sefydliadau a gwasanaethau flaenoriaethau cydraddoldeb yn unol â'r deddfwriaeth sy'n sicrhau eu bod yn adnabod ac yn mynd i'r afael ag:</p> <p>a) anghenion unigolion, waeth beth fo'u hunaniaeth a'u cefndir, ac yn cynnal eu hawliau dynol.</p> <p>9. Gwybodaeth a chaniatâd cleifion</p> <p>Bydd sefydliadau a gwasanaethau yn cydnabod ac yn mynd i'r afael ag anghenion cleifion, defnyddwyr gwasanaethau a'u gofalwyr:</p> <p>a) drwy roi gwybodaeth hygyrch ac amserol iddynt am eu cyflwr, eu gofal, eu meddyginiaeth, eu triniaeth a'u trefniadau cymorth;</p> <p>b) drwy ddarparu cyfleoedd i drafod a chytuno ar opsiynau;</p> <p>c) drwy drin eu gwybodaeth yn gyfrinachol;</p> <p>d) drwy sicrhau eu bod yn cael caniatâd yn seiliedig ar wybodaeth, yn unol â'r arferion gorau; a</p> <p>e) drwy eu hasesu a'u gwarchod yn unol â Deddf Galluedd Meddyliol 2005 pan fydd yn briodol.</p> <p>18. Cyfathrebu effeithiol</p> <p>Mae sefydliadau a gwasanaethau yn cydymffurfio â deddfwriaeth a chanllawiau i sicrhau bod cyfathrebu a rhannu gwybodaeth yn digwydd yn effeithiol, yn hygyrch, yn briodol ac yn brydlon:</p> <p>b) â chleifion, defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr a staff gan ddefnyddio ystod o gyfryngau a fformatau priodol;</p> <p>c) ynghylch cleifion, defnyddwyr gwasanaethau a'u gofalwyr;</p> <p>e) gan ymateb i anghenion ieithyddol ac anghenion cyfathrebu pawb.</p>
<p>Hylif a maeth</p>	<p>Diogelwch rhag artaith a thriniaeth greulon a</p>	<p>14. Maeth</p> <p>Bydd sefydliadau a gwasanaethau yn cydymffurfio â deddfwriaeth a chanllawiau i</p>

	diraddiol (Erthygl 3).	<p>sicrhau:</p> <p>a) bod anghenion unigol y defnyddwyr y gwasanaeth o ran maeth a hylif yn cael eu hasesu, eu cofnodi, a'u diwallu;</p> <p>b) bod unrhyw gymorth sydd ei angen i fwyta ac yfed neu i fwydo a llyncu yn cael ei nodi a'i ddarparu;</p> <p>Lle darperir bwyd a diod:</p> <p>d) cynigir dewis o fwydydd sydd wedi'u paratoi'n ddiogel ac sy'n diwallu anghenion maethol, therapiwtig, crefyddol a diwylliannol pawb; a</p> <p>e) bod bwyd a diod ar gael 24 awr y dydd.</p>
Briwiau pwyso	Diogelwch rhag artaith a thriniaeth greulon a diraddiol (Erthygl 3).	<p>8. Cynllunio a darparu gofal</p> <p>Mae sefydliadau a gwasanaethau yn cydnabod ac yn mynd i'r afael ag anghenion cleifion, defnyddwyr gwasanaethau a'u gofalwyr:</p> <p>a) drwy sicrhau bod pob agwedd ar ofal, gan gynnwys atgyfeirio, asesu, gwneud diagnosis, trin, trosglwyddo gofal, rhyddhau a gofal diwedd oes, yn cael ei darparu'n brydlon ac yn gyson ag amserlenni a llwybrau cenedlaethol a'r arferion gorau.</p>
Gofal a hylendid personol	Diogelwch rhag artaith a thriniaeth greulon a diraddiol (Erthygl 3).	<p>2. Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol</p> <p>Mae gan sefydliadau a gwasanaethau flaenoriaethau cydraddoldeb yn unol â'r ddeddfwriaeth sy'n sicrhau eu bod yn adnabod ac yn mynd i'r afael ag:</p> <p>a) anghenion unigolion, waeth beth fo'u hunaniaeth a'u cefndir, ac yn cynnal eu hawliau dynol.</p> <p>10. Urddas a pharch</p> <p>Mae sefydliadau a gwasanaethau yn cydnabod ac yn mynd i'r afael ag anghenion a dewisiadau corfforol, seicolegol, cymdeithasol, diwylliannol, ieithyddol ac ysbrydol unigolion ac yn sicrhau bod eu hawl i urddas a pharch yn</p>

		<p>cael ei diogelu a'i bodloni.</p> <p>8. Cynllunio a darparu gofal</p> <p>Mae sefydliadau a gwasanaethau yn cydnabod ac yn mynd i'r afael ag anghenion cleifion, defnyddwyr gwasanaethau a'u gofalwyr:</p> <p>a) drwy sicrhau bod pob agwedd ar ofal, gan gynnwys atgyfeirio, asesu, gwneud diagnosis, trin, trosglwyddo gofal, rhyddhau a gofal diwedd oes, yn cael ei darparu'n amserol ac yn gyson ag amserlenni a llwybrau cenedlaethol a'r arferion gorau;</p> <p>b) drwy helpu i ddatblygu gallu pobl i ofalu amdanynt eu hunain a hybu adsefydlu ac ailalluogi.</p>
<p>Anghenion o ran mynd i'r tŷ bach</p>	<p>Diogelwch rhag artaith a thriniaeth greulon a diraddiol (Erthygl 3).</p>	<p>2. Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol</p> <p>Mae gan sefydliadau a gwasanaethau flaenoriaethau cydraddoldeb yn unol â'r ddeddfwriaeth sy'n sicrhau eu bod yn adnabod ac yn mynd i'r afael ag:</p> <p>a) anghenion unigolion, waeth beth fo'u hunaniaeth a'u cefndir, ac yn cynnal eu hawliau dynol.</p> <p>8. Cynllunio a darparu gofal</p> <p>Mae sefydliadau a gwasanaethau yn cydnabod ac yn mynd i'r afael ag anghenion cleifion, defnyddwyr gwasanaethau a'u gofalwyr:</p> <p>a) drwy sicrhau bod pob agwedd ar ofal, gan gynnwys atgyfeirio, asesu, gwneud diagnosis, trin, trosglwyddo gofal, rhyddhau a gofal diwedd oes, yn cael ei darparu'n brydlon ac yn gyson ag amserlenni a llwybrau cenedlaethol a'r arferion gorau;</p> <p>b) drwy helpu i ddatblygu gallu pobl i ofalu amdanynt eu hunain a hybu adsefydlu ac ailalluogi.</p> <p>10. Urddas a pharch</p> <p>Mae sefydliadau a gwasanaethau yn</p>

		cydnabod ac yn mynd i'r afael ag anghenion a dewisiadau corfforol, seicolegol, cymdeithasol, diwylliannol, ieithyddol ac ysbrydol unigolion ac yn sicrhau bod eu hawl i urddas a pharch yn cael ei diogelu a'i bodloni.
Seinyddion	<p>Diogelwch rhag artaith a thriniaeth greulon a diraddiol (Erthygl 3).</p> <p>Yr hawl i ryddid a diogelwch (Erthygl 5).</p>	<p>7. Gofal sy'n ddiogel ac yn glinigol effeithiol</p> <p>Bydd sefydliadau a gwasanaethau yn sicrhau bod cleifion a defnyddwyr gwasanaethau yn cael triniaeth a gofal diogel ac effeithiol:</p> <p>b) sy'n cydymffurfio mewn modd amserol â chyfarwyddebau diogelwch a chlinigol.</p> <p>8. Cynllunio a darparu gofal</p> <p>Mae sefydliadau a gwasanaethau yn cydnabod ac yn mynd i'r afael ag anghenion cleifion, defnyddwyr gwasanaethau a'u gofalwyr:</p> <p>a) drwy sicrhau bod pob agwedd ar ofal, gan gynnwys atgyfeirio, asesu, gwneud diagnosis, trin, trosglwyddo gofal, rhyddhau a gofal diwedd oes, yn cael ei darparu'n amserol ac yn gyson ag amserlenni a llwybrau cenedlaethol a'r arferion gorau.</p>
Rheoli meddyginiaeth a rheoli poen	<p>Diogelwch rhag artaith a thriniaeth greulon a diraddiol (Erthygl 3).</p>	<p>8. Cynllunio a darparu gofal</p> <p>Mae sefydliadau a gwasanaethau yn cydnabod ac yn mynd i'r afael ag anghenion cleifion, defnyddwyr gwasanaethau a'u gofalwyr:</p> <p>a) drwy sicrhau bod pob agwedd ar ofal, gan gynnwys atgyfeirio, asesu, gwneud diagnosis, trin, trosglwyddo gofal, rhyddhau a gofal diwedd oes, yn cael ei darparu'n amserol ac yn gyson ag amserlenni a llwybrau cenedlaethol a'r arferion gorau.</p> <p>15. Rheoli meddyginiaethau</p> <p>Bydd sefydliadau a gwasanaethau yn</p>

		<p>sicrhau:</p> <p>a) eu bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth, canllawiau trwyddedu a chanllawiau arferion da ar holl agweddau rheoli meddyginiaethau gan gynnwys cyffuriau a reolir;</p> <p>b) bod clinigwyr yn gymwys ac wedi'u hyfforddi i ragnodi, dosbarthu a rhoi meddyginiaethau yn eu maes ymarfer unigol; ac</p> <p>c) bod cyngor amserol, hygyrch a phriodol ar feddyginiaethau ar gael i gleifion, defnyddwyr gwasanaethau, eu gofalwyr a staff, gan gynnwys rhoi gwybod am ddigwyddiadau niweidiol yn ymwneud â chyffuriau.</p>
Rheoli cofnodion	Yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol (Erthygl 8).	<p>20. Rheoli cofnodion</p> <p>Mae sefydliadau a gwasanaethau yn rheoli eu holl gofnodion yn unol â deddfwriaeth a chanllawiau i sicrhau eu bod:</p> <p>a) yn cael eu dylunio, eu paratoi, eu hadolygu a'u dosbarthu i ddiwallu'r anghenion gofynnol;</p> <p>b) yn cael eu storio a'u cadw'n ddiogel, bod modd eu hadfer yn amserol a'u gwaredu'n briodol;</p> <p>c) yn gywir, yn gyflawn, yn ddealladwy ac yn gyfredol yn unol â safonau a chanllawiau proffesiynol; a</p> <p>d) yn cael eu rhannu fel y bo'n briodol.</p>
Cynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion o'r ysbyty	<p>Yr hawl i ryddid a diogelwch (Erthygl 5).</p> <p>Yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol (Erthygl 8).</p>	<p>8. Cynllunio a darparu gofal</p> <p>Mae sefydliadau a gwasanaethau yn cydnabod ac yn mynd i'r afael ag anghenion cleifion, defnyddwyr gwasanaethau a'u gofalwyr:</p> <p>a) drwy sicrhau bod pob agwedd ar ofal, gan gynnwys atgyfeirio, asesu, gwneud diagnosis, trin, trosglwyddo gofal, rhyddhau a gofal diwedd oes, yn cael ei darparu'n amserol ac yn gyson ag amserlenni a llwybrau cenedlaethol a'r arferion gorau;</p> <p>b) drwy helpu i ddatblygu gallu pobl i ofalu amdanynt eu hunain a thrwy hybu adsefydlu ac ailalluogi; ac</p>

		c) drwy weithio mewn partneriaeth â gwasanaethau a sefydliadau eraill, gan gynnwys gwasanaethau cymdeithasol a'r trydydd sector.
Gweithgareddau	Rhyddid mynegiant (Erthygl 10). Yr hawl i ryddid a diogelwch (Erthygl 5).	8. Cynllunio a darparu gofal Mae sefydliadau a gwasanaethau yn cydnabod ac yn mynd i'r afael ag anghenion cleifion, defnyddwyr gwasanaethau a'u gofalwyr: b) drwy helpu i ddatblygu gallu pobl i ofalu amdanynt eu hunain a hybu adsefydlu ac ailalluogi.